# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWYDDEDU

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

| | |
|---|---|
| **Members Present:** | **Dydd Llun, 25 Tachwedd 2019** |
| **Cadeirydd:** | **Councillor S.Paddison** |
| **Is-gadeiydd:** | **Councillor D.Whitelock** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, C.Edwards, C.James, H.Jones, C.J.Jones, J.Miller, R.Mizen, S.M.Penry a/ac D.M.Peters |
| **Swyddogion yn bresebbol:** | N.Chapple, G.White and N.Headon |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2019.

2. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

   **PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

3. **<u>TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT – ACHOS 1</u>**

Gohiriwyd yr eitem hon nes bod gwybodaeth ychwanegol ar gael i Aelodau.

4. **<u>TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT – ACHOS 2</u>**

Cafodd Aelodau wybodaeth mewn perthynas â dirymu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat

Eglurodd swyddogion pan fydd yr Is-adran Trwyddedu'n derbyn ymgeisydd newydd, mae hi bellach yn e-bostio Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn gwirio a yw'r ymgeisydd yn ymddangos ar eu cofrestr Oedolion neu Blant.

Esboniodd swyddogion i Aelodau fod y gwaith o sefydlu cronfa ddata NR3 (Cronfa Ddata Genedlaethol sy'n nodi gyrwyr y gwrthodwyd eu trwydded a dirymiadau) ar y camau olaf ac y byddai ar gael yn fuan. Byddai hyn yn darparu manylion gyrwyr y mae eu trwyddedau wedi'u gwahardd neu eu dirymu i swyddogion.

Mynegodd Aelodau bryder ynghylch system ddatgelu'r heddlu mewn perthynas â gyrwyr tacsi. Cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon at Heddlu De Cymru a chopi ohono'n mynd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd rhannu gwybodaeth o ran datgelu gyrrwr. Dywedodd y Swyddog Trwyddedu hefyd y byddai'r pryderon yn cael eu mynegi yng nghyfarfod Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan, gyda chynnig bod y llythyr yn cael ei anfon ymlaen i bob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

Bydd y Prif Swyddog Trwyddedu yn anfon llythyr at Heddlu De Cymru (a chopi i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu) a fydd yn amlinellu pryderon Aelodau o ran datgelu a hefyd yn mynegi pryderon yng nghyfarfod nesaf Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan, gyda'r bwriad i anfon llythyr at y pedwar heddlu.

**CADEIRYDD**